"Chwi yw goleuni'r byd. Ni ellir cuddio dinas a osodir ar fryn. Ac nid oes neb yn goleuo cannwyll ac yn ei rhoi dan lestr, ond yn hytrach ar ganhwyllbren, a bydd yn rhoi golau i bawb sydd yn y tŷ. Felly boed i'ch goleuni chwithau lewyrchu gerbron eraill, er mwyn iddynt weld eich gweithredoedd da chwi a gogoneddu eich Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd." **(Mathew 5:14-16)**

Unwaith eto, mae'r Arglwydd Iesu yn defnyddio darlun syml i ddisgrifio rôl ei ddisgyblion yn y byd. Wrth iddo siarad â'i ddisgyblion ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, mae'r geiriau yr un mor berthnasol i ni heddiw.

Goleuni

Dywed Iesu mai ein gweithredoedd da yw'r goleuni. Dyma ffrwythau'r Ysbryd, (Gal. 5:22) ffrwyth ein perthynas â'r Arglwydd Iesu – y Wir Winwydden. Mae'r cynyrch yn well wrth i'r Tad, y Gwinllannwr, ein tocio a'n trin. Dyma'r ffrwyth y mae'r Ysbryd Glân yn ei gynhyrchu ynom. Gan mai'r Duwdod, felly, sydd yn gyfrifol am y ffrwyth, Duw ddylai gael y clod.

Sefyll Allan

Mae goleuni yn amlwg mewn tywyllwch. Mae'r Cristion yn oleuni, a'r byd di-gred yn dywyllwch. Gwysiwyd Paul gan yr Arglwydd Iesu i fynd at Iddewon a Chenhedloedd **"i agor eu llygaid, a'u troi o dywyllwch i oleuni, o awdurdod Satan at Dduw"** (Act. 26:18).

Yn epistol cyntaf Ioan fe welwn beth yw nodweddion y person sydd yn y tywyllwch:

Mae'n dweud ei fod yn ddibechod. **"Os dywedwn nad ydym wedi pechu, yr ydym yn ei wneud ef yn gelwyddog"** (1 Ioan 1:10). Mae'r person yma yn gwadu ac yn anwybyddu ei bechod a'r angen i'w wynebu a'i gyffesu gerbron Duw, er mwyn dod at Dduw a chael ei drawsnewid ganddo.

Mae'n twyllo ei hunan. Mae'r person sydd yn edrych heibio i'w bechod ei hun yn byw mewn breuddwyd ffŵl, gan dybio nad oes canlyniadau i'n pechod a'n bywyd yn y byd. Yn ôl y Beibl, y realiti yw ein bod yn atebol i Dduw.

Beth am y sawl sy'n rhodio yn y goleuni?

Mae'n cyffesu ei bechod. Mae'n ei wynebu ac yn dod ag ef at Dduw, ac yn profi bod gwaed Mab Duw yn ei lanhau o bob pechod.

Mae'n caru ei frawd. Mae wedi profi cariad Duw yng Nghrist, ac felly mae'n caru ei gymydog, boed yn frawd yng Nghrist, yn gymydog di-gred, neu hyd yn oed yn elyn.

Mae'n tynnu at y goleuni, tra bod y person sydd yn dywyllwch yn gwyro at y tywyllwch bob tro. Mae'r Cristion fel creadur y dydd, tra bod yr anghredadun fel creadur y nos.

Treiddio

Mae goleuni hefyd yn treiddio i'r tywyllwch. Mae goleuni yn symud tywyllwch ac yn cymryd ei le. Fyddai goleudy ddim yn werthfawr iawn mewn dyffryn, na channwyll o dan lestr, neu o dan y gwely.

Felly, rhaid i ni ymgnawdoli yn y byd ac nid ymneilltuo oddi wrtho. Y ffordd i ddisgleirio yn y byd yw trwy fyw yn ddi-nam a diddrwg **"yng nghanol cenhedlaeth wyrgam a gwrthnysig"** (Phil. 2:15). Mae hyn yn ddisgwyliad arnom yn ein bywyd beunyddiol yn y cartref, y teulu estynedig, y gwaith ac yn ein cymuned.

Chwalu

Mae goleuni yn chwalu tywyllwch. Yr her fwyaf i ni fel pobl Crist yw newid ein cymdeithas er gwell. Wrth gynnau golau mae rhywbeth yn digwydd – mae'r tywyllwch yn lleihau ac mae llawer ohono'n diflannu, tra bod y golau yn cymryd ei le. Absenoldeb goleuni yw tywyllwch.

Mae hon yn her fawr i ni. Ydy'n cymunedau o dan fantais am ein bod ni yno? Oes goleuni yn ein gweithle trwy ein presenoldeb?

Disgleirio

Disgleirio yw gwaith goleuni, ac felly mae'n rhaid iddo gadw'i ddisgleirdeb. Os mai Duw yng Nghrist yw ffynhonnell ein goleuni, rhaid i ni gadw'n agos ato. Rhaid i ni gadw cymundeb cyson ag ef. Yr ydym yn gwneud hyn trwy ddarllen ein Beibl, gwrando'r Gair, addoli a gweddïo, a hynny mewn cymdeithas â Christnogion eraill, mewn eglwys.

Mae Sechareia'r proffwyd yn cael gweledigaeth o ganhwyllbren aur yn derbyn cyflenwad parhaus o olew olewydd er mwyn ei oleuo (pen.4). Roedd hyn yn symbol o gyflenwad o Ysbryd yr Arglwydd i'w bobl i'w nerthu yng ngwaith Duw. Mae hynny'n dweud wrthym pa mor bwysig yw cael ein llenwi'n gyson â'r Ysbryd Glân os ydym am fod yn oleuni yn ein byd.

Mae'r apostol Paul yn ein hatgoffa hefyd yn 2 Cor. 6:14 na allwn gymysgu goleuni a thywyllwch. Er ein bod i ddisgleirio yn y tywyllwch, nid oes partneriaeth â'r tywyllwch gennym chwaith. Ni wnawn unrhyw argraff ar y tywyllwch os byddwn yn cyflawni pechod.